

Canllaw Facebook

Gwefan cymdeithasol sy'n cynnwys proffiliau personol, tudalennau cwmni, corfforaeth neu sefydliad, marchnadoedd, a grwpiau cyhoeddus a phreifat.

Pam?

- Hyrwyddo digwyddiadau
- Ymgysylltu gyda'r cyhoedd
- Rhannu newyddion y fenter
- Rhannu newyddion perthnasol arall
- Hysbysebu

Pryd?

Dylid postio neges yn aml er mwyn aros yn gyfredol a gweladwy.

O leiaf dwywaith yr wythnos.

Amseroedd strategol (pryd mae'ch cynulleidfa yn defnyddio Facebook? E.e. ar ôl gwaith neu ar ôl swper)

Pwy mae'n targedu?

- Teuluoedd (plant bach)
- Teuluoedd (plant hŷn)
- Pobl Ifanc (11-25)
- Cymunedau (Saesneg)
- Cymunedau (Cymraeg)

Pa fath o dudalen?

<p>Tudalen (Cwmni, Corfforaeth neu Sefydliad)</p> <ul style="list-style-type: none">• Er mwyn creu digwyddiadau• Yn ffenest siop gyhoeddus• I ymgysylltu gyda'r cyhoedd• Gallu gweld 'mewnweliadau'• Gallu hysbysebu	<p>Proffil Person (proffil ar gyfer aelod staff sy'n llwyr broffesiynol ac ar wahân i'w proffil personol)</p> <ul style="list-style-type: none">• Er mwyn i'r cyhoedd ymgysylltu'n uniongyrchol gydag aelod o staff ar-lein
---	--

Gwiriwch y rhestr isod i sicrhau eich bod yn gwneud y mwyaf o'r cyfrwng:

Gosod tudalen

- Creu Tudalen Cwmni, Corfforaeth neu Sefydliad
- Dewis categori Sefydliad Cymunedol (neu un arall sy'n fwy perthnasol)
- Gosod enw llawn y fenter fel enw'r cwmni
- Creu '@username' sy'n fersiwn byr o enw'r fenter os yw'n rhy hir e.e. @Mlenw'rfenter
- Llwytho logo'r fenter fel llun proffil
- Llwytho llun o ddigwyddiad fel llun clawr
- Gosod dolen i wefan y fenter fel 'botwm'
- Creu disgrifiad byr dwyieithog e.e. Menter sy'n gweithio yn ardal ____ i gryfhau'r iaith Gymraeg yn ein cymuned
- Creu disgrifiad hir yn ymhelaethu e.e. Pwyntiau bwled gydag enghreifftiau o'ch gwaith
- Ychwanegu cyfeiriad a ffyrdd o gysylltu
- Gwirio holl elfennau'r Gosodiadau
- Llwytho unrhyw luniau, fideos defnyddiol
- Gwahodd pobl i hoffi'r dudalen

Gwneud y mwyaf o'r dudalen

- Defnyddio botwm 'mewnweliadau' i weld pwy yw'r gynulleidfa, pa negeseuon sy'n gweithio orau, pa amseroedd mae'r gynulleidfa ar Facebook
- Tagio cyfryngau perthnasol mewn negeseuon drwy ddefnyddio @____ o fewn y neges
- Rhoi llun a dolen ym mhob neges (os nad oes llun/poster perthnasol, defnyddiwch eich logo)
- Rhannwch newyddion/negeseuon eich partneriaid i adeiladu perthynas
- Rhannwch wybodaeth gyffredinol am y Gymraeg (erthyglau o newyddion da, datblygiadau pwysig ayyb)
- Gallwch amserlennu eich negeseuon i fynd ar amseroedd penodol yn y dyfodol. Ffordd effeithlon o ddefnyddio'ch amser ar-lein.
- Crëwch dudalennau digwyddiadau ar y dudalen. Mae hyn yn arddangos gymaint o bethau sydd gan y mentrau'n mynd ymlaen, ac yn llai dryslyd na llwyth o bosteri ar y prif dudalen.
- Gallwch greu 'fideo byw' o ddigwyddiadau. Ffordd dda o ymgysylltu gyda chynulleidfa oedd methu bod yno a'i ddefnyddio i hyrwyddo'r rhai nesaf.
- Edrychwch ar yr opsiynau 'boots post' neu hysbysebu - rhad ond effeithiol!